



Promoting improvements
in policing to make
everyone safer

Pa mor effeithlon mae'r llu ynghylch cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Trosolwg

Mae gan Heddlu Gwent Police ddealltwriaeth dda o'r galw am ei wasanaethau a enillwyd trwy adolygiadau rheolaidd o'r holl alw mae'n ei wynebu a defnydd o ddata ar alw mewnol, cudd a rhagweithiol. Mae'n dechrau defnyddio ei ddata i ddeall tueddiadau ac i anfon swyddogion o flaen llaw er mwyn diwallu galw a ragwelir.

Mae gan y llu fodel adnoddau clir, a ddatblygwyd trwy ddefnyddio system o fodelu galw i benderfynu'r defnydd mwyaf effeithiol o'i adnoddau ac fe'i cydweddir yn ôl cyllid cyfredol a'r disgwyliadau o arian a fydd ar gael gan y llywodraeth yn y dyfodol.

Mae gan y llu strategaeth fuddsoddi ragorol a chynhwysfawr sy'n rhoi manylion ynghylch cynlluniau dichonadwy ar gyfer buddsoddi mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), gan gynnwys digideiddio er mwyn gwella effeithlonrwydd ei wasanaeth.

Gall y llu arddangos bod ganddo gynllun ariannol credadwy a adeiladir ar ragdybiaethau cryf ar gyfer dyfodol tymor canolig y llu. Mae ganddo gynlluniau ariannol cadarn yn eu lle i ddal i fantoli ei gyllid dros y cyfnod o bedair blynedd hyd at 2020/21.

Aseswyd Heddlu Gwent fel llu da o ran effeithlonrwydd y ffordd mae'n cadw pobl yn ddiogel ac yn lleihau troseddu.

Mae gan Heddlu Gwent ddealltwriaeth dda o'i alw ym mhob maes. Mae galw wrth ganol dealltwriaeth y llu o sut mae'n gweithredu, sut mae'n cynllunio a sut mae'n adleoli. Mae uwch-swyddogion yn deall data eu galw a'r effaith mae'r gwahanol fathau o alw (e.e. mewnol, cudd, rhagweithiol) yn ei chael ar y llu, ei bartneriaid a'r cyhoedd.

Mae'r llu'n dechrau defnyddio ei ddata i ddeall tueddiadau ac i anfon swyddogion o flaen llaw er mwyn diwallu galw a ragwelir. Mae'n gweithio'n dda gyda phartneriaid ar lefel uwch er mwyn sicrhau cyfrifoldeb casgliadol am alw a bod galw a gamgyfeirir yn cael ei ddeall a'i osgoi.

Mae'r llu'n defnyddio ei adnoddau'n effeithiol i reoli galw cyfredol ac yn defnyddio ei ddealltwriaeth gryf o alw i ddyrannu adnoddau. Mae ganddo systemau yn eu lle i ddeall bylchau a galluoedd ei weithlu, sydd yn golygu y gall gydweddu sgiliau

gweithredol mewn amser real â galw ac sydd yn caniatáu am gynllunio ac adleoli adnoddau ar gyfer y tymor hwy.

Mae Heddlu Gwent wedi datblygu cydweithrediadau cryf â lluoedd eraill, y sector cyhoeddus a diwydiant i ddelio â galw'n fwy effeithlon. Mae'n cynllunio'n weithredol ar gyfer galw yn y dyfodol ac yn cymryd i gyfrif foddhad y cyhoedd yn y cynlluniau hyn. Hefyd mae ganddo brosesau yn eu lle i sicrhau ei fod yn adolygu effaith newid ar ddarpariaeth o wasanaeth.

Erbyn 2020/21, mae Heddlu Gwent yn wynebu diffyg cyllidebol posibl, y manylir arno yng nghynllun ariannol tymor canolig y llw, o £9.5m, yr hyn mae'r llw'n rhagweld y caiff ei gwmpasu gan arbedion effeithlonrwydd o'i raglen newid. Mae ganddo gynlluniau buddsoddi a ddylai gyflawni effeithlonrwydd mwy a gwelliant yn y gwasanaeth.

Bydd angen iddo barhau i ganolbwyntio ar werth am arian drwy gydol y tymor canolig er mwyn cynnal a gwella effeithiolrwydd gweithredol.

Mae cyfieithiadau o'r adroddiadau llawn ar gael ar gais:

contact@hmic.gsi.gov.uk